

GWARCHAE!


Ann Jungman

Addasiad
Gwen Redvers Jones

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

Gomer

Cyfres yr Hebdog






Cam 13

Gwarchae!

Ann Jungman



Lluniau Alan Marks
Addasiad Gwen Redvers Jones

Gomer

er cof am Paul – A.J.

Cynnwys

1	Cloddio	5
2	Ar eu Pen eu Hunain	13
3	Y Gwarchae	20
4	Newyn	30
5	Sasha	37
6	Wedi eu Dal	43
7	Y Gelyn	49
8	Yr Annisgwyl	57
9	Y Cyngerdd	61
10	Yr Heol Iâ	67

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2005 gan
Barrington Stoke Ltd, 18 Walker Street,
Edinburgh EH3 7LP dan y teitl *Siege!*

www.barringtonstoke.co.uk

Cyhoeddwyd yn Gymraeg yn 2009 gan
Wasg Gomer, Llandysul, Ceredigion, SA44 4JL
www.gomer.co.uk

ISBN 978 1 84323 974 1

©testun: Ann Jungman, 2005 ©

© lluniau: Alan Marks, 2005 ©


©testun Cymraeg: Gwasg Gomer, 2009 ©

Mae Ann Jungman ac Alan Marks wedi datgan eu hawl
dan Ddeddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988
i gael eu cydnabod fel awdur ac arlunydd y llyfr hwn.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r
cyhoeddiad hwn, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i
drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng,
electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopiau,
recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwr.

Noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Argraffwyd a rhwymwyd yng Nghymru gan
Wasg Gomer, Llandysul, Ceredigion.



Pennod 1

Cloddio

Edrychodd Ivan allan drwy'r ffenest a meddwl mor braf fyddai bod ar ei wyliau o hyd. Roedd e wrth ei fodd yn pysgota yn yr afon ac yn casglu mwyar oddi ar y perthi. Doedd Ivan ddim yn rhy hoff o'r ysgol.

Yn sydyn, agorwyd drws yr ystafell ddosbarth a brasgamodd y prifathro i mewn. Roedd e ar frys.

'Pob un ohonoch chi, ewch i'r tryciau sy'n aros y tu allan,' gwaeddodd. 'Mae ar eich gwlad eich angen chi.'

Wroddodd y bechgyn ar ei gyluad, mewn penbleth.

'Beth mae e'n feddwl?' gofynnodd un.

'Peidiwch â holi,' cyfarthodd y prifathro.
'I mewn i'r lorri â chi, a gwnewch bopeth rwy'n ei ddweud wrthyhch.'

Wrth i'r bechgyn gael eu gyrru drwy strydoedd llydan, prydferth Leningrad, teimlai Ivan mor falch ei fod yn byw mewn dinas hardd fel hon. Ond yn rhyfedd iawn roedd llawer mwy o bobl nag arfer ar hyd y lle heddiw. Lorri ar ôl lorri, a'r rheiny'n llawn myfyrwyr a phlant ysgol, yn rhuo'n swnllyd ar hyd strydoedd oedd mor dawel fel arfer. Roedd rhywbeth yn bod. Ond beth?

Cyn hir roedden nhw wedi gadael y ddinas ac allan yn y wlad. Stopiodd y lorri'n sydyn.

'Pawb allan,' gwaeddodd eu hathro.

Wrth i'r bechgyn neidio oddi ar y lorri, daeth milwr Rwsiaidd atyn nhw.

'Pob un ohonoch chi i gymryd un o'r rhawiau 'na a dod ar fy ôl i,' gwaeddodd.
'Symudwch hi!'

Rhedodd Ivan ar ei ôl.

'Beth sy'n digwydd?' gofynnodd a'i wynt yn ei ddwrn. 'Beth ydyn ni'n wneud allan fan hyn?'

'Does neb wedi dweud wrthoch chi?' gofynnodd y milwr.

Ysgydwodd Ivan ei ben. 'Dy'n ni'n gwybod dim,' atebodd.

'Mae Hitler wedi ymosod ar Rwsia,' meddai'r milwr a phoeri'n ffyrnig i'r ffos ar ochr yr heol. 'Ddoe, fel lladron yn y nos, croesodd yr Almaenwyr ffin Rwsia heb

rhwyfel. Dim ond dechrau bomio a lladd.'

'Ond mae'r Cymrawd Stalin, ein harweinydd mawr, wedi gwneud cytundeb 'da Hitler na fydden ni'n ymosod ar yr Almaen ac na fydden nhw'n ymosod arnon ni,' meddai Ivan.

'O! Ie, wel, dyw darnau o bapur yn golygu dim i fochyn fel Hitler. Maen nhw'n eu harwyddo nhw heddiw ac yn eu rhwygo nhw fory. O'r gorau, fechgyn! Arhoswch fan hyn a dechreuwch gloddio.'

Tynnodd Ivan anadl hir a dwfn. Dechreuodd gloddio. Roedd pobl yn cloddio o'i gwmpas ym mhob man. Roedd y rhan fwy'n ifanc, ond roedd pobl hŷn yno hefyd, a phawb yn defnyddio'r rhawiau fel petai'r byd yn dod i ben.

'Beth ydyn ni'n ei gloddio?' gofynnodd un ferch.

'Trapiau ar gyfer tanciau,' atebodd y milwr a'i lais yn sarrug. 'Ffosit mawr, dwfn na fydd tanciau'r Almaenwyr yn gallu eu croesi.'

'Tanciau?' meddai Ivan a syndod yn ei lais. 'Ond fydd yr Almaenwyr ddim yn gallu dod mor bell â hyn, fyddan nhw? Ry'n ni gannoedd o filltiroedd o'r ffin.'

'Ydyn, ond gwell bod yn barod rhag ofn,' aeth y milwr yn ei flaen. 'Doedden ni ddim yn gwybod eu bod nhw'n mynd i ymosod arnon ni. Dyw'n byddinoedd ni ddim yn barod, ac efallai na fyddan nhw'n gallu dal yr Almaenwyr yn ôl. Gallan nhw ddod mor bell â hyn yn hawdd. Mae'n rhaid i ni fod yn barod mewn da bryd. Cloddiwch mewn grwpiau o ddeg, a pheidiwch â gwastraffu ynni'n siarad. Cloddiwch a chloddiwch ac yna cloddiwch ragor.'

Bu Ivan a'i frindiau'n cloddio a chloddio.
Cyn hir roedden nhw'n chwys diferu ac
roedd swigod anferth ar eu dwylo.

O'u cwmpas, roedd grwpiau eraill yn
cloddio yr un mor benderfynol. Doedden
nhw ddim yn siarad nac yn edrych o
gwmpas, dim ond cadw'u trwynau ar y
maen. Edrychodd Ivan i fyny a synnu o
weld ei chwaer Varya'n cydio mewn rhaw.

Roedd y dywysoges Varya, ei chwaer
ffroenuchel, yn gwneud rhywbeth defnyddiol
gyda'i dwylo am unwaith. Roedd Varya'n
seren yn ysgol gerddoriaeth enwocaf
Leningrad. Roedd hi'n canu'r piano ac roedd
yn rhaid iddi gadw'i dwylo'n sych a meddal
bob amser. Doedd hi ddim hyd yn oed yn
cael golchi cwpan. *O wel, dyw'r rhyfel yma*
ddim yn ddrwg i gyd, meddylodd Ivan.



...a, Varya, gwaeeddodd. 'Beth wyt ti'n
'neud fan hyn? Bydd yn rhaid i ti socian dy
ddwylo am o leiaf chwe awr ar ôl hyn.'

'Paid â siarad yn hurt,' gwaeddodd ei
chwaer yn ôl. Roedd hi'n flin fel tincer.
'Mae'n rhaid i bob Rwsiad helpu mewn
unrhyw ffordd sy'n bosibl. Edrych, mae hyd
yn oed fy athro, Shostakovich, yma - yn
cloddio fel y gweddill ohonon ni.'

Daliodd Ivan ei anadl. Shostakovich oedd
y cyfansoddwr a'r pianydd mwyaf enwog yn
Rwsia fawr i gyd, ac roedd e, hyd yn oed,
fan hyn yn dal rhaw. Roedd hyn dipyn yn
wahanol i ganu'r piano. Mae'n rhaid bod
pethau'n wael.

Pennod 2

Ar eu Pen eu Hunain

Fe yrron nhw 'nôl i Leningrad fel roedd yr
haul yn machlud. Roedd y dŵr yn disgleirio
yn y camlesi. Doeddech chi byth yn bell
oddi wrth ddŵr yn Leningrad. Roedd y
ddinas wedi'i hadeiladu ar gorsydd, a doedd
hi ddim yn bosibl anghofio hynny. Roedd y
Môr Baltig ar un ochr a Llyn Ladoga
anferth ar yr ochr arall.

Dringodd Ivan a Varya'n sigledig i fyny'r
grisiau i'w fflat. Roedden nhw wedi blino'n
lân, roedden nhw'n frwnt ac roedd eu
dwylo'n swigod drostynt. Ar ben y grisiau
safai eu tad yn ei wisg filwrol.

i'n aros amdanoch chi. Mae'n rhaid i mi fynd yn ôl i'r fyddin, ond do'n i ddim am fynd heb ffarwelio â chi.'

Roedd wyneb Varya fel y galchen.

'Fyddwch chi i ffwrdd yn hir?' gofynnodd Ivan. Roedd e'n poeni.

'Na fyddaf siŵr,' atebodd ei dad.
'Fe anfonwn ni'r Almaenwyr 'na 'nôl dros y ffin mewn chwinciad.'

Doedd Ivan ddim yn ei gredu. Sawl gwaith oedd e wedi clywed ei dad yn sibrdw wrth ei fam yn y nos? Roedd e wedi'i glywed yn dweud bod eu Harweinydd Mawr, Stalin, wedi cael gwared ar y cadfridogion gorau i gyd.

'Mae Stalin yn ddyn eiddigeddus, a chyn gynted â'i fod yn gweld bod rhywun yn

gwneud gwallt iddo, neu bod eiddigeddus yn ei hoffi, mae'n gorchymyn iddo gael ei saethu.' Dyna beth oedd ei dad wedi'i ddweud.

'Dymunwch pob lwc i mi 'te,' meddai eu tad, cyn eu cofleidio'n dynn.



ddim yn mynd i ennill. Os allwn ni ddal ati tan y gaeaf, mae dau gadfridog enwog yn aros am Hitler a'i fyddinoedd.'

Gwenodd Ivan. 'Bydd y Cadfridog Rhew a'r Cadfridog Newyn yn eu dal. Ai dyna beth ry'ch chi'n ei ddweud?'

'Rwyt ti'n iawn, Ivan, a phaid ag anghofio hynny. Ry'n ni'r Rwsiaid yn gwybod sut i ymdopi â'r oerfel yn well na neb arall. Cofia sut ry'n ni wedi trechu goresgynwyr yn y gorffennol. Yr holl fyddinoedd yna geisiodd oresgyn Rwsia - y Ffrancwyr, yr Almaenwyr - fe fu'n rhaid iddyn nhw i gyd droi 'nôl. All neb ein trechu ni ar ein tir ein hunain - efallai y bydd yn cymryd amser, ond fe enillwn ni yn y diwedd. Meddylia am hynny a dal wrtho, beth bynnag fydd yn digwydd.

'Nawr, brysiwch, dwi eisiau tynnu llun o 'nheulu cyn mynd, fel y bydda i'n gallu edrych arnoch chi pryd bynnag y bydda i'n moyn.'

Aeth Ivan a Varya i ymolchi ac wedyn eistedd gyda'u mam a Sasha bach tra bu eu tad yn tynnu lluniau. Roedd Sasha, dwyflwydd oed, yn gwneud i bawb chwerthin wrth iddo dynnu gwallt ei fam.

'Nawr, dwi am dynnu llun ohonoch chi, Dad,' gwaeddodd Ivan a rhuthro am y camera. 'Byddwn ni'n gallu edrych arnoch chi hefyd, bob tro y byddwn ni'n moyn.'

Tynnodd Ivan lun ohonyn nhw i gyd yn sefyll o flaen y ffenest.



yna, gwisgodd eu tad ei got fawr a'i het ffwr ac aeth at y drws. Cusanodd a chofleidiodd eu mam a Sasha bach, ac wedyn Ivan a Varya.

'Edrychwch ar ôl eich mam a Sasha. Rwy'n dibynnu arnoch chi'ch dau.'

'Peidiwch â phoeni, Dad, fe wnawn ni' atebodd Ivan mewn llais cadarn. Yna, rhedodd ei dad i lawr y grisiau a neidio i'r tryc oedd yn aros gerllaw.

Fe ruthron nhw i gyd i'r ffenest i godi llaw arno.

'Sgwn i a welwn ni fe byth eto,' dywedodd eu mam yn dawel gan gusanu Sasha ar ei gorun.

'Wrth gwrs y gwnawn ni,' mynnodd Varya. 'Ry'n ni'n siŵr o'i weld e, dwi'n gwybod y gwnawn ni, ac fe loriwn ni'r hen Hitler ofnadwy 'na hefyd.'

'O! Gobeithio'n wir dy iou yn iawn, ochneidiodd ei mam. 'Nawr, mae'n ddrwg gen i ond bydd yn rhaid i chi'ch dau edrych ar ôl Sasha heno. Dwi ar ddyletswydd nos. Mae'n rhaid i bob meddyg fod yn bresennol yn yr ysbyty. Mae bwyd i chi yn y gegin. Fe fydda i 'nôl yn y bore i ofalu am Sasha, cyn i chi fynd i'r ysgol.'

Wedi iddi fynd, edrychodd Ivan a Varya ar ei gilydd.

'Dyna ddiwrnod ofnadwy,' meddai Varya. 'I ddechrau ry'n ni'n cloddio ffosydd drwy'r dydd, ac wedyn mae'n rhaid i'n rhieni fynd a'n gadael.'

'O! dwi'n gwybod,' cytunodd Ivan. 'Mae rhywbeth rhyfedd ar droed, ond mae 'da fi rhyw deimlad bod pethau'n mynd i waethygu.'

Pennod 3

Y Gwarchae

Digwyddodd pethau'n gyflym iawn yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn aml iawn roedd awyrennau'r Almaen yn hedfan yn isel dros Leningrad ar gyrchoedd bomio. Roedd drylliau'r Almaen yn sielio'r ddinas yn ddi-baid. Roedd y sŵn yn fyddarol. Doedd Ivan a Varya ddim yn gweld llawer ar eu mam. Roedd hi'n brysur yn yr ysbyty. Roedd yn rhaid iddi edrych ar ôl y cannoedd o filwyr oedd yn dod yno o faes y frwydr wedi'u hanafu. Ran amlaf roedd hi'n cysgu yn yr ysbyty, os oedd hi'n cysgu o gwbl. Cyn hir doedd dim ysgol ac roedd eu hen ffordd o fyw wedi diflannu.

Un diwrnod daeth eu mam adref, yn welw ac wedi blino'n lân.

'Ry'n ni'n mynd i fod dan warchae, wedi ein caethiwo. Mae Hitler wedi penderfynu cipio'r ddinas,' meddai.

'Gwarchae!' gwaeddodd Ivan. 'Ond yn y Canol Oesoedd roedd hynny'n digwydd.



koeda nyraoda rhytel yn cael eu defnyddio a phobl yn tywallt olew berwedig oddi ar wrthgloddiau a muriau'r ddinas. Dy'n nhw ddim yn gwneud pethau fel 'na nawr.'

'Wel, mae'r Almaenwyr yn mynd i sefydlu gwersyll o amgylch Leningrad a'n llwgu ni allan,' meddai eu mam yn ddifrifol.

'Dim gobaith,' gwaeddodd Ivan. 'Enillan nhw byth. Byddai'n well gen i farw nag ildio iddyn nhw.'

'Fi hefyd,' cytunodd Varya.

'Sasha hefyd,' meddai eu brawd bach, gan nodio'i ben.

Chwarddodd pawb, yn falch o gael rheswm i wenu.

'Blant, mae'n rhaid i chi wrando arna i a meddwl o ddifri am beth dwi'n ddweud,' dywedodd eu mam. 'Mae'r rhan fwyaf o'r

plant a rhai o'r bobl bwysig iawn yn cael eu symud allan o Leningrad. Dwi ddim yn gallu mynd. Mae'n rhaid i bob meddyg aros yma. Ond fe allech chi fynd. Dwi wedi cael lle i chi ar y tryciau cludo.'

'Beth am Sasha?' holodd Ivan.

'Rhaid i chi fynd ag yntau hefyd,' atebodd eu mam. Roedd ei llais yn flinedig dros ben.

'Allwn ni mo'ch gadael chi yma ar eich pen eich hun. Rhaid i ni aros gyda'n gilydd, Mam. Dwi'n aros gyda chi. Gall Varya fynd â Sasha i ddiogelwch.'

'Os y'ch chi'n meddwl mod i'n fodlon mynd a'ch gadael chi'n fan hyn, ry'ch chi wedi gwneud camgymeriad,' atebodd Varya'n siarp. 'Gallwn i fod wedi mynd gyda fy athro, Shostakovich. Roedd e'n erfyn arnaf i fynd, ond gwrthodais i. Dwi ddim yn

mynda nawr dim ond achos eich bod chi wedi gofyn i mi fynd â Sasha.'

'Plis, Varya,' erfyniodd ei mam.

'Na, fe fydd Ivan a fi'n edrych ar ôl Sasha ac yn ymladd dros ein dinas os bydd rhaid.'

'Bydd pethau'n mynd yn ddrwg iawn,' rhybuddiodd eu mam. 'Os byddan nhw'n bomio'r gorsafoedd pŵer, fydd 'na ddim gwres. Mae'r bwyd bron wedi dod i ben ac fe fydd y bomio a'r sielio'n gwaethygu.'

'Ry'n ni wedi penderfynu, Mam. Does dim rhagor i'w ddweud,' gwenodd Ivan. 'Nawr, ry'ch chi'n edrych yn flinedig iawn. Fe wna i baned o de i chi ac wedyn rhaid i chi gysgu am dipyn.'

Dechreuodd eu mam wenu.

Mae fy mhlant wedi tyfu i fyny dros nos – mae'n sioc, ond yn sioc braf, meddylodd.

Roedd eu mam yn iawn. Fe aeth petnau'n waeth. Daeth y gaeaf a syrthiodd y tymheredd o dan y rhewbwynt. Yn union fel y dywedodd, bomiwyd y gorsafoedd pŵer a doedd dim gwres na golau. Goroesi oedd yr unig nod erbyn hyn.

Daeth Varya o hyd i ychydig ganhwyllau, ac aeth Ivan allan a chasglu darnau o bren o adeiladau a fomiwyd. Roedd pawb arall yn gwneud yr un peth, a bu Ivan mewn sawl sgarmes.

Un noson rewlyd roedd Varya'n magu Sasha, oedd yn oer a thrist. 'Bydd yn rhaid i ni losgi rhai o lyfrau Dad,' meddai.

'Varya, wyt ti'n colli dy bwyll? Fydde Dad byth yn maddau i ti.'

'Wrth gwrs y bydd e'n maddau. Edrycha ar Sasha. Mae'i ddannedd e'n clecian gan ei fod e mor oer. Cer i nôl rhai llyfrau, y rhai mawr trwchus. Fe losgan nhw'n dda ond

adain yn mlyggyll. A dere a rhai o'r llyfrau
cerddoriaeth sy 'da fi hefyd. Fe losgwn ni
rheina hefyd, i dwymo rhywfaint arnon ni.'

'Ond, Varya, dy gerddoriaeth di ydy'r peth
pwysica yn dy fywyd di.'

'Y peth pwysica yn fy mywyd i ydy ein
bod ni i gyd yn cadw'n fyw. Mae'n rhaid i ti
wneud beth dwi'n ddweud. Pan fydd y rhyfel
wedi dod i ben, fe fydda i'n dweud wrth
Dad pam roedd yn rhaid i ni losgi ei lyfrau.'

Meddylodd Ivan am y Varya roedd e'n ei
hadnabod cyn y rhyfel.

'Dwi'n cofio adeg pan fyddai ewin wedi
torri yn drychineb i ti,' meddai'n chwareus.
'Ro'n i'n meddwl dy fod yn hen fabi wedi
dy ddifetha. Ro'n i'n anghywir,' meddai.

Gwenodd Varya.

* * *

fflatiau, yn cadw golwg am fomiau tân.
Roedd pawb yn y fflatiau'n cymryd eu tro i
wylio. Rhuai'r awyrennau uwchben ac yna
disgynnodd bom. Rhuthrodd Ivan i'w nôl ac
yna'i ollwng i fwcedaid o ddŵr. Cerddodd
i fyny ac i lawr yn taro'i draed ar y llawr
ac yn rhwbio'i ddwylo i'w cadw'n gynnes.
Gwnaeth ei orau glas i beidio â meddwl pa
mor llwglyd y teimlai.

*Dwi'n casáu pob Almaenwr, meddylodd
wrtho'i hun. Oni bai amdanyn nhw, bydde'n
teulu ni'n dal 'da'i gilydd, a fyddwn i ddim yn
rhewi, yn llwgu, yn ddiflas ac yn ofnus. Dwi'n
casáu pob Almaenwr, pob un copa walltog yn y
byd. Dwi'n moy'n lladd cymaint ag y galla i.*

Yna clywodd Ivan arogl bendigedig. Nid
arogl arferol llosgi a bomiau oedd e. Arogl
hyfryd oedd hwn. Tynnai ddŵr o ddannedd
Ivan. Edrychodd allan a gweld tân anferth
yn llosgi ynghanol y ddinas.



Gwelodd Ivan bod y brit storfa iwyd ar dân. Dyna ble roedd y rhan fwyaf o fwyd Leningrad yn cael ei gadw. Roedd y storfa wedi'i bomio. Roedd yr arogl yn codi mwy fyth o chwant bwyd arno. Gwyddai fod yr holl fwyd ar gyfer y gaeaf yn llosgi'n ulw.

Nawr, fe fyddwn ni'n llwgu yn ogystal ag yn rhewi, meddyliodd Ivan yn drist. Disgynnodd bom tân arall. Cododd Ivan y bom a'i daflu i'r bwced. Ond ildiwn ni ddim. Dim byth.

Pennod 4

Newyn

Aeth yr wythnosau heibio a doedd pethau'n gwella dim. Ar ôl bomio'r stordy bwyd roedd llai a llai o fwyd ar gael.

'Mae eisiau bwyd arna i drwy'r amser,' cwynodd Ivan.

'A phawb arall,' cyfarthodd ei chwaer. 'Dyw tafell o fara'r dydd ddim yn ddigon i neb.'

'Dyw e ddim hyd yn oed yn fara go iawn,' cwynodd Ivan. 'Mae blawd llif a baw llygod ynddo fe. Does neb yn poeni cyn belled â'n bod ni'n cael *rhywbeth*.'

Aeth hi'n cael cynnal a phawb arall,' oedd sylw Varya. 'Dim ond y gweithwyr yn y ffatrioedd a'r milwyr sy'n cael mwy na ni.'

Dechreuodd Sasha lefain. 'Sasha'n moyn bwyd,' llefodd.

Edrychodd Ivan a Varya ar ei gilydd. Cododd Varya y bychan a'i gofleidio.

Roedd hi bellach mor wan fel mai prin y gallai ei godi o gwbl.

'Moyn bwyd!' llefai Sasha o hyd.

'Ivan, dechreua dynnu'r papur wal oddi ar y wal,' gorchmynnodd Varya.

'Beth wyt ti'n feddwl, Varya? Hyd yn oed petaen ni'n rhoi'r papur wal yn y stôf, dim ond am funud y bydd e'n llosgi.'

'Dy'n ni ddim yn mynd i'w losgi. Byddwn

in n ei ferwi i wneud cawl i Sasha. Dwi wedi
clywed bod maeth mewn glud.'

'Cawl glud?' ebychodd Ivan. 'Mae'n
swnio'n erchyll!'

'Paid â chwyno,' ceryddodd Varya ef. 'Efallai
y bydd yn achub ein bywydau. Defnyddia
rhai o lyfrau meddygol Mam i gynnau'r
tân, ac fe af i i fyny i'r to i gasglu eira yn
y sosban 'ma a'i doddi i wneud cawl glud.'

Pan ddaeth Varya yn ôl gyda'r eira,
meddai, 'Dy felt di, Ivan, rhaid i mi ei gael
ar gyfer y cawl.'

'Fedri di ddim cael fy melt i. Bydd fy
nhrowser i'n cwmpo i lawr.'

'Defnyddia'r darn sgarff 'ma i ddal dy
drowser i fyny. Mae angen dy felt di arna i.
Bydda i'n berwi hwnna hefyd, i gael peth
o'r braster allan o'r lledr.'

Y noson nonno eisteddodd y tri i iwyta i
cawl a wnaeth Varya. Dododd y winwnsyn
olaf ynddo hefyd. Fe ddipion nhw'r bara yn
y cawl a chlirio'u powlenni'n lân. Fe
ddechreuon nhw deimlo ychydig yn well.
Tawelodd llefain Sasha a chwmpodd i gysgu.
Gwnaeth Ivan ei orau glas i beidio meddwl
am ddwmpenni ei fam, gyda bresych coch a
phorc wedi'i rostio. Doedd e ddim wedi bwyta
bwyd oedd yn blasu'n dda ers amser maith.



'Mae Masha ac Andrei sy'n byw i fyny'r grisiau wedi bod yn bwyta llygod mawr a chathod,' dywedodd Ivan wrth Varya.

'Dwi'n gwybod, ond maen nhw'n dal i edrych yn denau ac yn sâl,' ychwanegodd Varya.

'Ry'n ni i gyd yn edrych yn denau a thost,' cytunodd Ivan. 'Ry'n ni'n ddinas o 'sgerbydau. Dwi ar ddyletswydd tân ar y to eto heno. Wyt ti'n moyn i mi fynd i chwilio am goed cyn mynd?'

'Plis. Cer â'r sled i'w cario.'

Aeth Ivan allan i'w stryd nhw. Roedd y lle'n edrych yn hollol wahanol. Ar un adeg roedd tai tal, crand a siopau yno. Nawr roedd waliau wedi syrthio a thyllau yn yr heol. Lle bu'r tramiau'n rhedeg unwaith, doedd nawr ond tawelwch a rwbel. Yma ac acw gorweddai cyrff pobl ar y strydoedd.

roddi beu wedi llwgu i farwolaeth beuach nhw. Roedd un bachgen wedi syrthio'n farw gyda bwndel o goed wrth ei ochr. Chwiliodd Ivan drwy bocedi'r bachgen am ei lyfr dogni ac yna cododd y coed ar y sled. Y gosb am ddwyn llyfr dogni oedd marwolaeth, ond doedd Ivan yn hidio 'run botwm corn. Y cwbl roedd e'n moyn oedd helpu Sasha bach.

Wrth iddo gerdded adref ar hyd y stryd rewlyd, gobeithiai Ivan y byddai rhywun yn dod i nôl y cyrff yn y bore. Nawr, gan fod cymaint yn marw, yn aml byddai'r cyrff yn gorwedd am ddyddiau yn yr union fan lle roedden nhw wedi syrthio.

Mae'n rhyfeddol, meddylodd Ivan wrtho'i hunan, fe fyddai unrhyw ddinas arall wedi hen ildio ond ry'n ni'n dal ati, faint bynnag o bobl sy'n marw.



Pennod 5

Sasha

Roedd Ivan wrthi'n cerdded i fyny'r grisiau, gan lusgo'r sled a'r coed y tu ôl iddo pan ddaeth rhai o'r goleuadau ymlaen.

Trydan, meddylodd Ivan, *ro'n i wedi anghofio sut beth oedd e*. Yn araf, agorodd ddrws eu fflat.

'Dwi wedi cael coed i ni,' dywedodd wrth Varya. 'Des i o hyd iddo wrth ochr bachgen oedd wedi marw.'

'Gymerest ti ei lyfr dogni?' gofynnodd Varya mewn llais awdurdodol.

'Do,' atebodd Ivan. 'Does dim ots 'da fi! Os bydd e o help i Sasha, fe wnafe unrhyw beth.'

'Rho fe i mi,' gorchmynnodd Varya. Dododd Ivan y llyfr yn ei llaw. Taflodd Varya y llyfr i'r stof ac meddai mewn llais cadarn, 'Paid byth â gwneud hynna eto, Ivan. Mae dy angen di arna i. Dim rhagor o risgiau dwl.'

'Pam fod y trydan yn gweithio?' gofynnodd Ivan.

'Dyweddodd Masha, i fyny'r grisiau, wrtha i eu bod nhw wedi bod wrthi drwy'r dydd i'w gael i weithio er mwyn i ni i gyd allu gwrando ar y radio a chlywed y gerddoriaeth newydd mae Shostakovich wedi'i chyfansoddi amdanon ni.'

'Mae dy gyn-athro wedi cyfansoddi cerddoriaeth amdanon ni?' gofynnodd Ivan.

'Ydy, Symffoni Leningrad. Bydd yn dweud wrth yr holl fyd pa mor ddewr rydyn ni'n dal ati, er gwaethaf y gwarchae yma. Bydd Rwsia i gyd yn gwrando, a nawr gallwn ni glywed y gerddoriaeth hefyd.'

Llanwodd Varya'r stof â choed tân a throi'r radio ymlaen. Eisteddodd y tri phlentyn yn glòs at ei gilydd. Fe wisgon nhw bob dilledyn oedd ganddyn nhw a gwrando ar y radio.

'Dyma'r tro cyntaf i'r gwaith newydd yma gael ei berfformio,' meddai'r llais ar y radio. 'Cafodd ei gyfansoddi gan y Cymrawd Shostakovich, cyfansoddwr gorau Rwsia. Cyfansoddwyd y symffoni hon fel teyrnged i ddewrion Leningrad. Teitl y gwaith yw Symffoni Leningrad. Drigolion Leningrad – mae Rwsia gyfan yn eich cyfarch.'

Wrth wrando ar y gerddoriaeth, gallai'r tri glywed yr eira'n chwyrlio, y rhew, y sielio,

muriau'n syrthio i'r llawr, ond gallent hefyd glywed dewrder trigolion Leningrad – dinas na fyddai byth yn ildio.

'Pe byddet ti wedi mynd pan gest ti'r cyfle, Varya,' meddai Ivan, 'gallet ti fod yn chwarae gyda'r gerddorfa 'na nawr. Wyt ti weithiau'n difaru na est ti?'

'Nac ydw,' atebodd Varya. 'Na, sut byddwn i wedi gallu mynd a gadael pawb? Dwi ddim ond yn difaru mod i ddim yn gallu chwarae'r gerddoriaeth fendigedig 'na.'

'Roedd Sasha'n hoffi'r gerddoriaeth hefyd,' gwenodd Ivan. 'Edrych – mae'n cysgu'n sownd.'

Gwenodd Varya ar y plentyn a chyffwrdd ei foch fach welw. Stopiodd yn sydyn.

'Ivan, mae Sasha mor oer â thalp o iâ.'



freichiau. Roedd ei gorff bach yn llipa, a syrhiodd ei ben am yn ôl.

'Mae e wedi marw, Varya,' meddai Ivan mewn llais crynedig. 'Mae e wedi marw.'

'Sasha druan,' llefodd Varya. 'Roedd e mor oer a newynog.' Gafaelodd y ddau'n dynn yn ei gilydd, a llefain y glaw.

Pennod 6

Wedi eu Dal

'Mae'n rhaid i ni ddweud wrth Mam,' dywedodd Varya.

'Allwn ni ddim,' meddai Ivan. 'Sut gallwn ni gael neges ati? Does dim byd yn gweithio bellach. Does dim tramiau, dim byd. Allwn ni ddim cerdded i'r ysbyty, mae'n rhy bell. Heblaw hynny, rydyn ni'n rhy wan ac mae'n rhy beryglus. Mae'r bomiau'n syrthio'n ddi-baid. Beth wnawn ni â chorff Sasha? Does neb ar ôl bellach i ddod i nôl cyrff y meirw a mynd â nhw i'w claddu.'

'Hyd yn oed petai yna rywun ar gael,' dywedodd Varya'n drist, 'dwi ddim yn moyn iddo gael ei gladdu yn yr adfail yma o ddinas sydd mor llawn o boen, dicter a chasineb. Dwi'n moyn i'n Sasha ni fod mewn man tawel a phrydferth.'

'Does unman fel 'na yn Leningrad bellach,' meddai Ivan. 'Ond petaen ni'n mynd â fe i'n hen dŷ haf y tu allan i'r ddinas, fe fydden ni'n gallu claddu'i gorff yno, o dan y goeden ble roedd e'n hoffi chwarae.'

'Efallai y gallwn ni fynd â fe yn y nos?' awgrymodd Varya. 'Mae'r tŷ haf yn nhir neb. Mae'n gorwedd rhyngon ni a byddin yr Almaen, ac mae'n weddol agos.'

'Ond sut gallwn ni fynd yn y nos? Does neb i fod allan,' ychwanegodd Ivan.

'Pwy fydde'n ein gweld ni?' gofynnodd Varya. 'Does dim llawer o bobl ar ôl; mae

cymaint yn sâl neu wedi marw, ac am y gweddill, does dim egni na bywyd yn neb. Fydde neb yn poeni.'

Am hanner nos cychwynnodd y ddau. Fe ddodon nhw gorff bach Sasha ar y sled a'i dynnu. Roedden nhw wedi'i lapio yn ei hen flanced. Cerddai'r ddau yn araf gan eu bod mor wan. Ar ben pella'r stryd fe welon nhw filwr Rwsiaidd yn gwarchod.

'Gad i ni lithro drwy'r stordy gwag 'na,' sibrydodd Ivan, 'wedyn fydd neb yn gallu ein gweld ni.'

Fe arhoson nhw hyd nes i'r milwr symud, ac wedyn sleifiodd y ddau allan tuag at gyrion y ddinas. O'r diwedd, fe gyrhaeddon nhw'r caeau glas a chael hyd i'w tŷ haf. Roedd wedi cael ei fomio ac roedd bellach yn adfail.

yn dal yma. Fe gladdwn ni Sasha o dan y goeden.' Cododd y corff bach a chychwynnodd y ddau i gyfeiriad y goeden.

Y funud honno, fe glywon nhw sŵn sgidiau trymion. Fflachiwyd golau yn eu hwynebau.

'Codwch eich dwylo!' gorchmynnodd llais cras. O'u blaenau safai pum milwr Almaenig, a phob un yn pwyntio'i ddryll at y ddau blentyn. Cododd Ivan ei ddwylo, ond allai Varya ddim gwneud hynny, gan ei bod yn cario corff Sasha.

Gwthiodd un milwr ei ddryll i gefn Varya, ond wnâi hi ddim gollwng Sasha.

'Beth sy 'da ti'n fanna?' gwaeddodd un milwr mewn Almaeneg. 'Smyglwyr y'ch chi, neu ai bom ydy hwnna?'



Doedd Ivan ddim yn deall yr un gair, ond atebodd Varya mewn Almaeneg.

'Na, dy'n ni ddim yn smyglwyr, ac nid bom ydy hwn. Ein brawd bach ni yw e. Mae e wedi marw, ac roedden ni'n moyn ei gladdu o dan y goeden ble roedd e'n hoffi chwarae. Hwn oedd ein tŷ haf ni.'

'Mae'n rhaid mai ysbiwyr ydyn nhw,'
meddai un o'r Almaenwyr. 'Sut arall y
byddai'r ferch 'na'n gallu siarad Almaeneg?'

'Dwi'n deall Almaeneg,' atebodd Varya,
'am fy mod i'n astudio cerddoriaeth ac fe
ddysges i Almaeneg er mwyn gallu canu
caneuon yn yr iaith.'

Roedd Ivan yn crynu mewn ofn. Sut yn y
byd y gallai Varya aros mor ddigynnwrf ac
ateb y cwestiynau mor dda?

'Gad i mi weld y bwndel 'na,'
gorchmynnodd yr Almaenwr.

Yn dawel fach, heb ddweud yr un gair,
estynnodd Varya y bwndel iddo.

'Maen nhw'n dweud y gwir,' meddai'r
milwr. 'Mae 'na fachgen bach fan hyn ac
mae e wedi marw.'

Pennod 7

Y Gelyn

'Sut buodd y plentyn farw?' gofynnodd un
o'r milwyr.

'Dy'n ni ddim yn gwybod,' atebodd Varya.
'Ry'n ni wedi bod mor oer, a does dim bwyd
'da ni. Ry'n ni i gyd yn wan ac yn sâl. Mae
miloedd, degau o filoedd, yr un fath â fe.'

'Ble chi'n moyn claddu eich brawd?'
gofynnodd un o'r milwyr.

'Fan yna, o dan y goeden ble roedd e'n
arfer chwarae. Roedden ni'n arfer treulio'r
gwyliau haf yma.'



'Beth sy'n digwydd?' gofynnodd Ivan drwy'i ddannedd. Roedd e'n dal i deimlo'n ofnus iawn. 'Ydyn nhw'n mynd i'n saethu ni?'

'Dwi ddim yn meddwl,' atebodd Varya.

Aeth y milwyr at ei gilydd i siarad. Yna cerddodd un ohonyn nhw draw at Varya ac Ivan. Roedd e'n edrych yn awdurdodol iawn.

'Mae'n ddrwg iawn gennym am yr hyn sy wedi digwydd i'ch brawd,' meddai'r swyddog. 'Dydyn ni ddim yn hapus bod plant yn cael eu lladd, a'u bod yn marw fel hyn. Os ydych chi'n fodlon, bydden ni'n falch o gael eich helpu i'w gladdu yn y fan yma.'

'Maen nhw'n moyn ein helpu,' eglurodd Varya wrth Ivan. 'Maen nhw'n dweud eu bod yn drist bod bachgen bach fel Sasha wedi marw oherwydd y gwarchae.'

'Wel, pam na chodan nhw'r gwarchae a mynd adref?' gwaeddodd Ivan yn ddig.

'Beth mae e'n ei ddweud?' gofynnodd y swyddog i Varya.

'Mae'n dweud os y'ch chi mor drist oherwydd marwolaeth Sasha, pam nad ewch chi 'nôl i'r Almaen?'

'Ydych chi'n meddwl ein bod ni ddim yn moyn mynd? Mae plentyn 'da fi, yr un oed â'ch brawd bach chi.

'Efallai bod fy mhlentyn i wedi marw hefyd. Mae'r Almaen yn cael ei bomio gan Brydain. Ydych chi'n meddwl mod i'n hoffi rhewi allan yn y fan yma, fis ar ôl mis? Mae'r rhan fwy ohonon ni yma am ein bod wedi cael ein gorfodi i ymuno â'r fyddin. Os rhedwn ni i ffwrdd a thrïo mynd adref, fe gawn ein saethu.'

Edrychodd Varya i fyw llygaid glas y dyn. Gallai weld ei fod yn dweud y gwir. Roedd e a'i ddynion yn casáu'r rhyfel gymaint

ag roedd hi ac Ivan yn ei gasáu. Roedden nhw'n dyheu am fynd adref. Ac roedd hi'n gwybod petai unrhyw un o'i ddynion yn adrodd yn ôl beth oedd e wedi'i ddweud, byddai'r swyddog yn cael ei saethu. Roedd e'n ddyn dewr.

'Dwi'n deall,' meddai wrtho. 'Mae'r rhyfel yn ofnadwy i ni i gyd.'

Trodd yn ôl at Ivan. 'Maen nhw'n mynd i'n helpu ni i gladdu Sasha. Mae gan y swyddog fab yr un oed â Sasha, a dwi'n credu ei fod yn teimlo trueni droston ni. Mae'n cydymdeimlo hefyd oherwydd y gwarchae.'

Aeth dau o'r milwyr i ffwrdd a dod yn eu holau gyda dwy raw. Fe gloddion nhw dwll o dan goeden Sasha.

'Pam ddewisoch chi fan hyn i'w gladdu?' gofynnodd y swyddog. 'Ddylech chi ddim

fod wedi gadael y ddinas. Rydych chi wedi rhoi eich hunain mewn perygl mawr.'

'Pan fydd pobl yn marw yn Leningrad, does neb ar ôl i'w claddu nhw. Os ydyn nhw'n cael eu claddu o gwbl, maen nhw'n cael eu taflu i dyllau mawr gyda'r holl gyrff eraill. Roedden ni'n moyn i Sasha fod mewn lle tawel, prydferth, lle gall deimlo'r awel a chlywed yr adar yn canu. Roedd e'n dwlu ar y goedwig.'

'Ydych chi'n gwybod yr hwiangerdd Almaenig enwog yna gan Brahms?' gofynnodd y swyddog.

'Wrth gwrs,' atebodd Varya.

'Fyddech chi'n hoffi i ni i gyd ei chanu wrth i ni gladdu eich brawd? Yna gall ei ysbryd fod yn rhydd ac yn hapus yn y goedwig pan fydd yr holl ymladd 'ma ar ben.'

Dywedodd Varya wrth Ivan beth roedd y swyddog wedi'i ddweud. 'Maen nhw'n moyn canu cân Almaenig i Sasha, er mwyn i'w ysbryd orffwys mewn hedd. Beth wyt ti'n feddwl?'

Nodiodd Ivan, 'Iawn. Roedd Sasha bob amser yn hoffi canu. Bydde fe'n hoffi 'na.'

'Fe wna i ganu mewn Almaeneg 'da chi,' meddai Varya wrth y milwyr. 'Bydd Ivan yn mwmian gyda ni.' Fe gloddion nhw fedd i Sasha a gosod ei gorff ynddo. Tra oedd dau o'r milwyr yn gosod y pridd drosto, canodd y gweddill. Wrth iddyn nhw ganu, llifai'r dagrau i lawr wynebaw Varya ac Ivan. Pan edrychon nhw i fyny fe welon nhw bod rhai o'r milwyr Almaenig yn llefain hefyd.

Os ydy Almaenwyr yn gallu canu fel yna, allan nhw ddim â bod yn ddrwg i gyd, meddyliodd Ivan.



Pennod 8

Yr Annisgwyl

'Beth y'ch chi'n mynd i 'neud â ni nawr?' gofynnodd Varya. 'Os y'ch chi'n mynd i'n lladd ni, plis claddwch ni drws nesa i'n brawd bach.'

'Dim rhagor o siarad am farwolaeth a lladd,' meddai'r swyddog. 'Ewch yn ôl heb i neb eich gweld, dyna i gyd.'

Yn sydyn, teimlai coesau Ivan mor wan fel na allai sefyll ar ei draed. Disgynnodd i'r llawr. Roedd Varya'n wan iawn hefyd. Eisteddodd i lawr ar bwys y goeden.

'Ry'ch chi'n llwgu, mae'n amlwg,' meddai'r swyddog. Gwaeddodd ar ei ddynion. 'Dewch yma, bob un ohonoch, a rhoi hynny o fwyd sy 'da chi i'r plant 'ma.'

Ymhen dim, roedd gan Ivan a Varya ddarn o fara ac ychydig o sosej i'w fwyta. Daeth un o'r milwyr â choffi twym iddyn nhw. Doedd Ivan erioed wedi blasu dim byd cystal â hwn. O dipyn i beth, dechreuodd ei goesau gryfhau rhyw ychydig.

'Allwch chi gerdded yn ôl i Leningrad nawr?' holodd y swyddog.

Nodiodd Ivan. Dechreuodd gerdded i ffwrdd, yna trodd ac estyn ei law allan i'r swyddog. 'Diolch am ein helpu,' meddai. 'Pan ddaw'r rhyfel 'ma i ben, gobeithio y gallwn ni fod yn ffrindiau.'

Dyweddodd Varya wrth y swyddog beth roedd Ivan wedi'i ddweud. Gwenodd

y swyddog ac fe ysgydwon nhw ddwylo. Yna cerddodd Ivan a Varya i ffwrdd. Roedd y wawr yn torri wrth iddyn nhw, o'r diwedd, gyrraedd eu fflat.

'Welodd neb ni,' meddai Varya. Syrthiodd y ddau ar eu gwelyau a chysgu ar unwaith.

Ychydig oriau'n ddiweddarach, dihunodd y ddau wrth i rywun guro'n galed ar y drws.

Cerddodd Ivan yn sigledig at y drws a'i agor yn araf. Yno safai swyddog o fyddin Rwsia.

Suddodd calon Ivan i'w draed. Oedd rhywun wedi darganfod beth wnaethon nhw'r noswaith cynt ac wedi dweud wrth yr awdurdodau?

'Dwi wedi dod i siarad â'r Cymrawd Varya,' meddai'r swyddog mewn llais uchel.

'Mae hi'n cysgu,' dywedodd Ivan wrtho.

'Wel, pan ddihunith hi, dwedwch wrthi fod yn rhaid iddi fynd i'r neuadd gyngerdd.'

'Sut gall hi? Fe fomiwyd y neuadd gyngerdd fisoedd yn ôl.'

'Do, mae hynny'n wir, ond er hynny ry'n ni'n mynd i gael cyngerdd. Ry'n ni'n mynd i chwarae Symffoni Leningrad. Ry'n ni'n moyn i'r Cymrawd Varya chwarae'r piano.'

'Ond dyw hi ddim wedi chwarae'r piano ers . . .'

'Does neb wedi chwarae'r piano ers amser maith, ond dwi wedi cael gorchymyn i gael hyd i bob cerddor yn Leningrad sy'n dal yn fyw. Rhaid iddyn nhw i gyd fod yn y neuadd erbyn pedwar y prynhawn 'ma.'

'Fe fydd hi yno,' addawodd Ivan.

Pennod 9

Y Cyngerdd

Brwsiodd Varya ei gwallt a gwisgo'i ffrog orau. Yna gwisgodd ei chot, ei menig a'i hesgidiau mawr hefyd. Gyda'i gilydd, cerddodd Ivan a Varya drwy'r strydoedd oedd wedi'u bomio, i'r neuadd gyngerdd. Tu allan i'r neuadd, fe welson nhw eu mam. Edrychai'n llwyd a thenau ac yn hynod flinedig. Rhedodd y ddau blentyn ati, gan ei chofleidio a'i chusanu.

'Sasha?' gofynnodd iddyn nhw. 'Ble mae Sasha?'

Doedd Varya ac Ivan ddim yn gallu ateb.



'Dwi'n gwybod. Mae e wedi marw,' meddai eu mam mewn llais bach trist. 'Fel cymaint o rai eraill.'

'Fe wnaethon ni'n gorau glas, wir fe wnaethon ni,' dywedodd Ivan wrthi.

'Dwi'n gwybod,' meddai ei fam. Roedd hi'n llefain erbyn hyn. 'Dwi'n gwybod cymaint roeddech chi'n ei garu.'


'Ry'n ni wedi'i gladdu yn y goedwig ger y tŷ haf,' dywedodd Varya wrth ei mam. 'Dyna ble roedd e'n dwlu bod, a gall wrando ar yr adar.'

'Mae hynna'n gwneud i mi deimlo rywfaint yn well. Dere, Varya. Dywedodd y meddygon eraill yn yr ysbyty mod i'n cael dod yma heddiw i wrando arnat ti'n chwarae. Gad i ni fynd i mewn, Varya annwyl. Rwy't ti'n chwarae mor dda.'

Roedd tyrfa wedi ymgasglu yn yr hen neuadd fawr. Edrychai'r rhan fwyaf ohonyn nhw fel bwganod brain, yn welw a thenau, heb fawr ddim egni. Hanner cerddorfa'n unig oedd yna, a phan ddaeth yr arweinydd i mewn, sylwodd Ivan bod ei ddwylo'n crynu oherwydd yr oerfel a'r newyn.

Milwyr oedd y rhan fwyaf o'r cerddorion, wedi dod o'r frwydr ar gyfer y cyngerdd. Roedd rhai wedi dod o'r ysbyty, hyd yn oed, ac roedd rhwymau am eu coesau neu o amgylch eu pennau. Edrychent i gyd yn frwnt a newynog. Er hynny, pan ddechreuodd y cyngerdd, eisteddodd pawb ar flaen eu seddau. Roedd y gerddoriaeth yn uchel ac yn heriol. Roedd holl obaith ac ofnau'r chwaraewyr yn amlwg yn eu perfformiad. Teimlai Ivan ei ysbryd yn codi. Roedd rhywbeth yn wahanol iawn heddiw. Doedd dim diddordeb ganddo fel arfer pan âi i glywed Varya'n chwarae. Ond gwelodd

heddiw bobl hanner marw, mewn dinas ddrylliedig, yn dal i allu creu cerddoriaeth. Teimlai Ivan yn hynod falch. Balchder ym mhobl Leningrad.



Pennod 10

Yr Heol Iâ

Tra oedden nhw'n eistedd yn y neuadd gyngerdd yn gwrando ar y gerddoriaeth, gafaelodd Ivan yn llaw ei fam. Roedd hi'n llefain yn dawel.

Yna teimlodd rywun yn cyffwrdd â'i gefn.

'Mae angen rhagor o ddynion arnon ni i amddiffyn y ddinas. Mae cymaint o'n dynion yma yn y cyngerdd. Alli di gario dryll a helpu i amddiffyn Leningrad?'

Nodiodd Ivan. Gwasgodd law ei fam cyn iddo adael.

'Mae'n rhaid i mi fynd, Mam, mae
f'angen i arnyn nhw i amddiffyn y ddinas.'

Nodiodd ei fam. 'Rwy'n falch iawn ohonot
ti. Rwy'n falch iawn ohonot ti a Varya,'
meddai.

Gafaelodd Ivan yn y dryll a dilyn y milwr
allan i'r strydoedd drylliedig.

*O'r diwedd, meddyliodd, o'r diwedd dwi'n
mynd i allu gwneud fy rhan i achub Leningrad.
Dwi'n mynd i ladd cymaint o'r Almaenwyr 'na
ag y gallaf.*

Ond yna meddyliodd am y swyddog oedd
wedi rhoi help llaw iddyn nhw gladdu
Sasha, a'r dynion oedd wedi canu o
amgylch y bedd wrth iddyn nhw ei gladdu.

*Mae'n rhaid i ni ennill y rhyfel yma,
meddyliodd. Mae'n rhaid i ni. Ond ar ôl hynny
i gyd fe ddof o hyd i'r dynion yna i gyd.*

*Os llwyddwn ni i oroesi'r rhyfel ofnadwy yma,
efallai y gallwn ni greu gwell byd gyda'n gilydd.*

Dilynodd Ivan y milwr i mewn i dŷ ac
i fyny'r grisiau.

'Edrych draw fanna,' meddai'r milwr,
'dyna ble mae'r Almaenwyr. Mae'n rhaid i
ti drio saethu cymaint ohonyn nhw ag y
galli di.' Edrychodd Ivan allan a gweld
byddin yr Almaen yn creu llinell o amgylch
Leningrad. Y llyn oedd yr unig le gwag a
llonydd. Doedd dim byd yn symud ar yr iâ.

Yn sydyn, draw yn y pellter, allan ar y
llyn, gwelodd rhyw dryciau'n symud.


'Edrychwch draw fanna, y tryciau 'na, be
ydyn nhw?' gofynnodd Ivan.

Tynnodd y milwr ei sbienddrych allan ac
edrych i'r cyfeiriad lle'r oedd Ivan yn
pwyntio. Arhosodd, yna meddai, 'Ein tryciau

ni yw'r rheina, fachgen. Ein tryciau ni, ac maen nhw'n llawn bwyd – bwyd, fachgen, bwyd a drylliau i ni. Mae'n bechgyn ni wedi torri drwodd o'r diwedd.'

'Sut?' gofynnodd Ivan.

'Maen nhw'n dod ar draws y llyn sy wedi rhewi. Yr Heol Iâ ydy ein henw ni arni. Pan mae'r iâ'n ddigon trwchus, mae lorïau'n gallu gyrru drosto o'r ochr arall lle nad oes



yr un milwr Almaenig. Ond mae'n beryglus iawn. Maen nhw'n dod â bwyd a help i ni, ac maen nhw'n gallu mynd â'r bobl sâl a'r rhai sy'n llwgu i ffwrdd gyda nhw.

'Dere, fachgen, edrycha drwy'r sbienddrych. Fe weli di nhw. Pob tryc yn llawn bwyd, a baner Rwsia'n chwifio ar bob un. Fe ddown ni drwyddi, fachgen, ry'n ni'n mynd i ennill. Fe fydd y Cadfridog Rhew a'r Cadfridog Newyn yn dechrau ymosod o



ddifri ar yr Almaenwyr nawr. Allan nhw
ddim eistedd o gwmpas am byth, ddim yn
ein gaeafau ni.'

Wrth wyllo'r tryciau'n dod i mewn o'r
heol beryglus dros yr iâ, gwyddai Ivan ei
fod yn dweud y gwir. Roedd Leningrad yn
mynd i oroesi. Roedd ef, Varya a'i fam yn
dal yn fyw. Efallai bod ei dad yn fyw hefyd.

Roedd Leningrad yn adfail. Roedd hanner
y boblogaeth yn farw, y tai a'r siopau'n
domennydd o rwbel, ond roedd ysbryd y
ddinas yn dal yn gryf.

Gall dinasoedd gael eu hailadeiladu,
meddyliodd Ivan. Byddai Leningrad yn codi
eto.



GWARCHAE!

Beth petai'r byd i gyd yn cael ei droi ben
i waered mewn un diwrnod? Un funud mae
Ivan yn breuddwydio yn y dosbarth, y funud nesa
mae'n ymladd i oroesi. Mae byddin yr Almaen
wedi goresgyn Rwsia, a dim ond Ivan sy'n
gallu gofalu am ei chwaer a'i frawd bach.
Mae'r ddinas wedi'i thorri i ffwrdd oddi wrth y byd
allanol. Dim trydan, dim bwyd, dim gobaith . . .
A fydd Ivan yn llwyddo i oresgyn pob anhawster?



Llun y clawr: Alan Marks

ISBN 978-1-84323-974-1

Gwasg Gomer
Llandysul
Ceredigion
SA44 4JL



www.gomer.co.uk

£4.99

